

Nodiadau'r athro

Cafodd y prosiect 'Darganfod etifedd y Rhyfel Byd Cyntaf ym Mhen-bre' ei ariannu a'i gefnogi gan Cadw, sef gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, a Chronfa Dreftadaeth y Loteri. Arweiniwyd y prosiect gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed, a hoffai ddiolch hefyd i Gyngor Sir Caerfyrddin am eu cefnogaeth hael. Mae'r prosiect wedi codi ymwybyddiaeth o archeoleg y Rhyfel Byd Cyntaf o fewn y parc. Mae wedi cynnwys pobl leol a phlant ysgol a'u hannog i ddarganfod archeoleg a deall arwyddocâd y safle. Cynhyrwyd arddangosfa symudol a thafleini i'w defnyddio'n lleol.

Mae'r prosiect hefyd wedi cynhyrchu'r adnoddau addysg hyn. Yn ystod y prosiect, ymwelodd dwy ysgol uwchradd leol â'r safle hynod ddiddorol hwn a chymryd rhan mewn gweithgareddau dosbarth yn ymwneud â'u hymweliad. Y gobaith yw y bydd yr adnoddau addysg hyn yn cael eu defnyddio gan ysgolion i annog a galluogi plant ysgol i ddarganfod arwyddocâd hanesyddol y safle a'i botensial addysgol eang.

Datblygwyd yr adnoddau gan athro profiadol er mwyn gweithio gyda chyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 gyda chymaint o gysylltiadau â'r cwricwlwm â phosibl. Efallai, fodd bynnag, y bydd angen addasu rhai o'r adnoddau i gydfynd ag anghenion ac ystod oed eich dosbarth.

Cyn addysgu unrhyw un o'r unedau, fe'ch cynghorir i ymweld â'r Parc Gwledig er mwyn i chi ymglyfarwyddo â'r safle.

Ymweliadau â'r safle

Yn gynwysedig yn yr adnoddau hyn, mae taflen arweiniol ar hanes ffatri Arfau Rhyfel Pen-bre sydd yn cynnwys map o'r safle ar gyfer ymweliadau dosbarth. Gellir cael mwy o wybodaeth ar-lein ar

<http://www.discovercarmarthenshire.com/pembreycountrypark/royal-ordnance-factory-pembrey/index.html> a www.dyfedarchaeology.org.uk

Cynhwysir cyngor asesiad risg yn y pecyn hwn.

Diolch i chi am gymryd yr amser i lawrlwytho'r adnoddau. Pe bai gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau, cysylltwch ar bob cyfri. E-bost s.rees@dyfedarchaeology.org.uk



Hoffai Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed gydnabod a diolch i'r bobl a'r sefydliadau canlynol am gael defnyddio'u ffotograffau a'u ffynonellau wrth greu'r adnoddau addysgol hyn.

Yr Archifdy Cenedlaethol

Dave Hughes,

Darganfod Sir Gaerfyrddin

Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin,

Detholiadau gan Gabrielle West o 'Menus, Munitions and Keeping the Peace,' golygwyd gan Avalon Weston,

Mike Ings,

RJC Thomas

Amgueddfa Rhyfel yr Ymerodraeth

Tony Coombe,

Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg

Archifdy Sir Gaerfyrddin

